# Dadansoddiad o isotopau asteroidau sydd wedi taro'r Ddaear

**Sleid gan Neil Goalby. Ar gael yn rsc.li/49N5QhO**

Mae mwy o fetelau gwerthfawr mewn asteroidau na chramen y Ddaear. Mae hyn yn golygu bod cynnydd sydyn yn faint o'r elfennau hyn sydd yng nghramen y Ddaear o oes benodol yn gallu bod yn arwydd o wrthdrawiad asteroid. Mae'r metel rwtheniwm yn arbennig o addysgiadol oherwydd bod ei gyfansoddiad isotopig yn amrywio ar draws gwahanol asteroidau, gan roi ôl bys unigryw.

Mae gwyddonwyr wedi dadansoddi samplau sy'n gysylltiedig â'r gwrthdrawiad asteroid a arweiniodd at ddifodiant y dinosoriaid. Mae'r dadansoddiad yn awgrymu bod yr asteroid wedi tarddu o bellafion cysawd yr haul.



© Mark Garlick/SPL/Getty Images

*Mae ymchwilwyr yn adnabod asteroidau yn ôl eu llofnod isotop*

**Cwestiynau**

1. Enwch fetel gwerthfawr ar wahân i rwtheniwm.
2. Diffiniwch 'isotop'.
3. Disgrifiwch sut mae cyfansoddiad gwahanol isotopau mewn sampl yn gweithredu fel 'ôl bys'.

Newyddion am ymchwil gwyddoniaeth